# Ffotograffiaeth Hunanwasanaeth yn Archifau Richard Burton

Mae Archifau Richard Burton yn caniatáu defnyddio camerâu yn yr Ystafell Ddarllen os dilynir yr arweiniad a’r telerau canlynol:

- Caniateir i ddarllenwyr ddefnyddio camera bach, llechen neu ffôn symudol i dynnu lluniau o rai o'n casgliadau ac ystyrir pob cais yn unigol - gofynnwch i staff yr Archifau. Ni fydd tâl yn cael ei godi am hyn.
- Rhaid cwblhau ffurflen datganiad hawlfraint sy'n rhestru'r holl ddeunyddiau y tynnwyd lluniau ohonynt.
- Caniateir ffotograffiaeth at ddibenion astudio personol neu ymchwil anfasnachol, ac ni ellir dosbarthu'r lluniau i eraill drwy eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd, drwy eu hargraffu neu fel arall heb ganiatâd.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich copïo yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawlfraint gyfredol. Sylwer bod rheoliadau gwahanol yn berthnasol i ddeunyddiau cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi ac i destun a delweddau.
- Rhaid gadael deunyddiau ar yr eitemau a ddarparwyd i'w cynnal (clustogau, sbwng etc). Peidiwch â thynnu ffasninau ymaith, plygu tudalennau neu newid yr eitem mewn ffordd arall i gael llun gwell.
- Wrth dynnu llun o ddeunydd wedi'i osod neu ei becynnu fel arall, rhaid ei adael yn y pecynnu.
- Byddwch yn ystyriol o ddarllenwyr eraill wrth dynnu lluniau ac, er mwyn tarfu arnynt cyn lleied â phosib, dylech ddiffodd seiniau neu hysbysiadau y gellir eu clywed ar eich dyfais.
- Dylid cynnwys cerdyn ag enw Archifau Richard Burton arno ym mhob ffotograff. Mae'r cardiau hyn ar gael yn yr Ystafell Ddarllen.
- Ni chaniateir ffotograffiaeth fflach, treipodau, sganwyr llaw na recordio fideo.
- Ni chaniateir tynnu lluniau o bobl na sgriniau cyfrifiaduron yn yr Ystafell Ddarllen.
- Ni all staff eich cynorthwyo i wneud copïau.

Ni chaniateir tynnu lluniau o rai mathau o ddeunyddiau, gan gynnwys:

- Eitemau lle mae'r fformat, y maint neu'r cyflwr yn golygu bod perygl eu difrodi.
- Eitemau lle gall fod materion diogelu data, preifatrwydd neu drydydd parti yn berthnasol.
- Eitemau lle mae materion cyfrinachedd neu gyfyngiadau a bennwyd gan roddwyr yn gwahardd copïau rhag cael eu gwneud neu eu darparu.

wedi ei ddiwygio, Medi 2021